**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 18 Ebrill 2024 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | A Anthony | R Francis-Davies |
| L S Gibbard | H J Gwilliam | D H Hopkins |
| E J King | A S Lewis | R V Smith |
| A H Stevens | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Howard French | Rheolwr Adfywio Ffisegol |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Lee Richards | Rheolwr Datblygu ac Adfywio |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Ness Young | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): -

---

## 136. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd H J Gwilliam gysylltiad personol â Chofnod 141 "Hysbysiad Man Agored Cyhoeddus i roi Cyhoeddusrwydd I'r Bwriad i Werthu Tir sy'n Fan Agored Cyhoeddus ar Fynydd Cilfái, Abertawe".

2) Datganodd y Cynghorydd L S Gibbard gysylltiad personol â Chofnod 145 "Adroddiad Rhaglen Cynnal a Chadw Cyalaf 2024/25".

3) Datganodd y Cynghorydd E J King gysylltiad personol â Chofnod 148 "Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Hamdden 2022/2023".

4) Datganodd y Cynghowyr R Francis-Davies a R V Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 148 "Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Hamdden 2022/2023" a gadawon y cyfarfod cyn ei ystyried.

**137. Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2024.

**138. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.**

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

**139. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Gofynnodd Ben Houghton sawl cwestiwn yn ymwneud â Chofnod 141 "Hysbysiad Mannau Agored Cyhoeddus yn Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Bwriad i Waredu Tir Man Agored Cyhoeddus ym Mynydd Cilfái, Abertawe".

Darparodd Arweinydd y Cyngor, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes ac Rheolwr Datblygu ac Adfywio atebion.

**140. Hawl i holi cynghorwyr.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**141. Hysbysiad Man Agored Cyhoeddus i roi cyhoeddusrwydd i'r bwriad i werthu Tir sy'n Fan Agored Cyhoeddus ar Fynydd Cilfái, Abertawe.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth mewn egwyddor i waredu tir a ddynodir yn fan agored cyhoeddus ym Mynydd Cilfái, Abertawe ar ffurf prydles fasnachol i Skyline Swansea Ltd.

**Penderfynwyd:**

1) Ystyriwyd yr ymatebion i'r broses ymgynghori ar fannau agored cyhoeddus a gynhaliwyd yn unol â'r ddeddfwriaeth mannau agored cyhoeddus yn benodol a123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ar gyfer gwaredu tir a nodir yn Atodiad A (Cynllun Hysbysiad Mannau Agored Cyhoeddus) yr adroddiad. Mae copi llawn o'r ymatebion a dderbyniwyd o'r broses ymgynghori sydd naill ai'n cefnogi, yn gwrthwynebu neu'n rhoi sylw niwtral wedi'u ddarparu yn y Papurau Cefndir.

2) Cymeradwyodd y Cabinet mewn egwyddor y cynnig i waredu tir ar Fynydd Cilfái i Skyline Swansea Ltd, ar ôl ystyried ymatebion yr Hysbysiad Mannau Agored Cyhoeddus.

3) Bydd adroddiad pellach yn cael ei dderbyn gan y Cabinet maes o law a fydd yn manylu ar delerau'r gwarediad arfaethedig (a fydd ar ffurf prydles fasnachol), i'w ystyried ac i benderfynu arno.

## 142. Cynlluniau ar gyfer Ysgolion Arbennig Abertawe yn y dyfodol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu adroddiad a oedd yn nodi na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod cyfnod yr Hysbysiad Statudol. Ceisiodd gymeradwyaeth i ymgynghori ar uno Ysgol Pen-y-Bryn ac Ysgol Crug Glas yn un ysgol arbennig ym mis Medi 2025 ac adleoli i ysgol bwrpasol newydd gan gynyddu nifer y lleoedd o fis Ebrill 2028.

**Penderfynwyd:**

1) Cyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig i gyfuno Ysgol Pen-y-bryn ac Ysgol Crug Glas yn un ysgol arbennig ym mis Medi 2025 ar safleoedd presennol a symud i ysgol newydd a adeiladwyd i'r diben gan gynyddu nifer y lleoedd o fis Ebrill 2028.

## 143. Ymateb Aelod y Cabinet a Chynllun Gweithredu Ymchwiliad Craffu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Les adroddiad a oedd yn amlinellu ymateb i'r argymhellion craffu ac yn cyflwyno cynllun gweithredu ar gyfer cael cytundeb.

**Penderfynwyd:**

1) Cytuno ar yr ymateb a amlinellwyd yn yr adroddiad a'r cynllun gweithredu cysylltiedig.

## 144. Fframwaith a Pholisi Rheoli Risgiau.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor adroddiad a oedd yn ceisio cytuno ar a chymeradwyo Polisi a Fframwaith Rheoli Risgiau diwygiedig y Cyngor.

**Penderfynwyd:**

1) Bod Polisi a Fframwaith Rheoli Risgiau diwygiedig y Cyngor yn cael ei gymeradwyo.

## 145. Adroddiad Rhaglen Cynnal a Chadw Cyfalaf 2024/25.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn ceisio cytundeb ar y cynlluniau i'w hariannu drwy'r Rhaglen Cynnal a Chadw Cyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Caiff y cynlluniau cynnal a chadw cyfalaf arfaethedig a restrir yn Atodiad A i'r adroddiad eu cymeradwyo.

2) Caiff y cynlluniau a'u goblygiadau ariannol fel a nodwyd yn Atodiad C yr adroddiad eu hawdurdodi a'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf.

**146. Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol - Cyfalaf Ychwanegol Cyllideb Gymunedol 2024-2025.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth ac Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn ceisio neilltuo ac awdurdodi cynlluniau cyfalaf a gymeradwywyd ar gyfer gwelliannau i ystafelloedd newid gwerth cyfanswm o £1m. Roedd hefyd yn ceisio ymrwymo cyllideb gymunedol ychwanegol gwerth £1m i gefnogi gwelliannau cymunedol ehangach.

**Penderfynwyd:**

1) Bod y dyraniad cyfalaf ychwanegol o £1m i'r gyllideb gymunedol a neilltuwyd ar gyfer cynlluniau gwella ystafelloedd newid penodol a amlinellwyd yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.

2) Y dyraniad cyfalaf ychwanegol o £1m i'r gyllideb gymunedol i gefnogi gwelliannau cymunedol ehangach. Dirprwyir awdurdod i Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth, Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth, a'r Cyfarwyddwr Lleoedd i bennu cymhwysedd ar gyfer pob cynllun. Os bydd cynllun yn cael ei gyflwyno yn un o wardiau'r Aelodau Cabinet hynny sydd ag awdurdod dirprwyedig, byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn lle hynny gan y Dirprwy Arweinydd ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Lleoedd.

**147. Gwaith Dichonoldeb y Rhwydwaith Gwres Rhanbarthol.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer cais am grant a'i dderbyn, am arian i ymgymryd â gwaith dylunio manylach ynghylch y potensial ar gyfer darparu rhwydwaith gwresogi rhanbarthol ochr yn ochr â datblygiadau Eden Las.

**Penderfynwyd:**

1) Bod y Cyngor yn derbyn ac yn defnyddio grant gan Lywodraeth y DU ar gyfer datblygu Cynllun Rhaglen Manwl ar gyfer rhwydwaith gwresogi rhanbarthol.

2) Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran rheoli tir o amgylch SA1 (gan gynnwys Tir John) i gefnogi datblygiad ehangach yr Eden Las.

**148. Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Hamdden 2022/2023.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth adroddiad gwybodaeth a oedd yn darparu gwybodaeth i'r Cabinet am weithdrefnau partneriaeth cyfleusterau allweddol ym mhortffolio'r Gwasanaethau Diwylliannol.

**149. Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 150. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 151. 71-72 Ffordd y Brenin.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn ceisio cydymffurfio â Rheolau Gweithdrefnau Ariannol.

**Penderfynwyd** diwygio a chymeradwyo'r argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.27 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 18 Ebrill 2024 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 23 Ebrill 2024 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 24 Ebrill 2024 |